

## Cynhadledd Genedlaethol CCAUC - trafodaeth o amgylch y bwrdd a chwestiynau ymgynghoriad

- i. Pa agweddau ar ehangu mynediad dylid eu blaenoriaethu? Beth yw'r rhesymeg dros y blaenoriaethu hwn, a sut dylai'r agweddau hyn gael eu cynnal a'u gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol?
- ii. A ddylid gwneud mwy i gynnal y cynnydd a wnaed tuag at ehangu mynediad i addysg uwch, drwy addysg uwch a thu hwnt iddi, a beth arall y dylid ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau ac i greu cyfleoedd?
- iii. Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd o ran cael mwy o bartneriaethau cydweithredol i hyrwyddo a gwella mynediad i addysg uwch? Ble dylem ni edrych i ddarganfod modelau o gydweithredu da rhwng partneriaethau?
- iv. Sut gallwn ni wella'r sail tystiolaeth sy'n ymwneud ag ehangu mynediad, dangos canlyniadau a chyflwyno'r achos dros ehangu mynediad?
- v. Beth arall dylid ei wneud i godi proffil a hyrwyddo ehangu mynediad?

## Canlyniadau trafodaeth yn y gynhadledd a'r sesiynau ymgynghori

Roedd y sesiynau ymgynghori yn ystyried amrywiaeth o faterion. Er bod cysondeb yn rhai o'r ymatebion, fel y gellid disgwyl gan drafodaethau traws sector a sector AU amrywiol, roedd hefyd meysydd o wahaniaeth. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys:

### Darpariaeth ehangu mynediad

- 1.1 pwysigrwydd dulliau gweithredu pob oedran tuag at ehangu mynediad, ar draws cylch bywyd cyfan y dysgwr o ysgol gynradd i oedolion sy'n dysgu a dysgu teuluol.
- 1.2 amrywiaeth mewn arddulliau cyflenwi a lleoliadau cyflenwi i ymgysylltu â phob mathau o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr rhan amser, dysgwyr hyblyg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### Grwpiau blaenoriaeth Ehangu Mynediad

- 1.3 pobl o bob oedran o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond gan gydnabod nad oedd anfantais economaidd-gymdeithasol wedi ei glystyru ar sail daearyddol yn unig.
- 1.4 mwy o grwpiau heb gynrychiolaeth, yn cynnwys cyn-filwyr y lluoedd arfog a dysgwyr ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni.
- 1.5 dylai gwaith gydag athrawon, rhieni, gofalgwyr a chyflogwyr fod yn sail i weithio gyda grwpiau sy'n flaenoriaeth.

### Cydweithredu

- 1.6 cafodd Partneriaethau Ymgyrhaedd yn Ehangach prifysgolion, colegau, ysgolion, Gyrfa Cymru, cyflogwyr, awdurdodau addysg lleol, cynrychiolwyr Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid eraill eu cydnabod fel modelau partneriaeth effeithiol.

- 1.7 pwysigrwydd cydweithredu, gan gynnwys cydweithredu mewn a rhwng sefydliadau yn ogystal â gweithio agosach rhwng partneriaethau 'academaidd' a 'galwedigaethol', lle mae rhaniadau o'r fath yn bodoli.
- 1.8 costau ac anfanteision timau'n gweithio ar eu pennau eu hunain heb gysylltu â thimau eraill.
- 1.9 byddai model cenedlaethol o gydweithio'n ysgogi gweithio effeithiol mewn partneriaeth.
- 1.10 roedd perthnasau cystadleuol rhwng rhai ysgolion a strwythurau AB yn hero cydweithredu mewn rhai manau.
- 1.11 roedd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol cyflogwyr a'u cyfraniad at Ehangu Mynediad fel esiamplau mewn ysgolion wedi creu cyfleoedd i gydweithio.
- 1.12 roedd pwysau amser ac adnoddau mewn ysgolion wedi creu heriau i sefydlu ymyriadau strategol.
- 1.13 hysbyswyd am fodolau partneriaeth effeithiol gan gynnwys: prifysgol Americanaidd yn berchen ar 'ysgol uwchradd sy'n bwydo'; OER yr Alban yn cael cyllid i gynhyrchu a hyrwyddo OER ledled prifysgolion yr Alban, Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd.

#### Hyrwyddo

- 1.14 mae angen i brifysgolion ddathlu eu llwyddiant. Dylai SAUau hyrwyddo ehangu mynediad ar y cyd gan gynnwys AU mewn AB i ddysgwyr a chyflogwyr.
- 1.15 nid oedd maint gwaith AU Ehangu Mynediad bob amser yn hysbys o fewn sefydliadau, rhanbarthau nac ymysg gwneuthurwyr polisi a dylid gwneud mwy i gipio a hyrwyddo'r gwaith hwn.
- 1.16 mae angen i brifysgolion hyrwyddo llwyddiant graddedigion er mwyn ysbrydoli dysgwyr.

#### Gwerthuso a mesurau

- 1.17 ystyriwyd bod sail ymchwil Ehangu Mynediad yn gyfyngedig a bod angen mwy o waith meintiol ac ansoddol ar lefel genedlaethol ac ar lefel sefydliad.
- 1.18 roedd angen diffiniadau o effaith gan eu bod yn ymwneud ag unigolion, grwpiau a'r genedl.
- 1.19 roedd angen fframwaith ehangu mynediad i Gymru cyn datblygu rhaglen weithredu.
- 1.20 Roedd Ehangu Mynediad yn agenda hirdymor ac roedd angen cynnal mesurau effaith yn y tymor hir i ddangos cynnydd.
- 1.21 Roedd mesur 'gwerth ychwanegol' Ehangu Mynediad yn bwysig a dylai cynlluniau busnes SAUau nodi buddiannau buddsoddiadau ychwanegol Ehangu Mynediad o incwm cynllun ffioedd.
- 1.22 mesurau ledled y sector yn annog cydweithredu ac yn annog peidio â chystadlu.
- 1.23 anogwyd y defnydd o'r System Cofnod Dysgwr a rhif unigryw'r dysgwr fel modd o oresgyn amharodrwydd llawer o ysgolion i rannu data disgybl cyfanredol ac felly rwystro casglu data'n effeithiol i ddangos effaith Ehangu Mynediad.

- 1.24 nodwyd model Tracio Mynediad Addysg Uwch (HEAT) sy'n cael ei gyllido gan HEFCE (£3m) ar gyfer tracio cyfranogiad fel model tracio traws sector newydd.

#### Cyllid

- 1.25 Roedd partneriaeth effeithiol yn gynaliadwy os oedd polisiau a buddsoddiad hirdymor yn sail iddo. Ystyriwyd bwrsariaethau i fod naill ai'n aneffeithiol neu'n fwy effeithiol os oedd ganddynt ganolbwynt strategol.
- 1.26 Gallai cael gwared ar y cap yn Lloegr effeithio ar gyllid prifysgolion Cymru gan effeithio ar ddarpariaeth ddrud, fel Ehangu Mynediad, ac arwain at fwy o lif traws ffiniol a recriwtio myfyrwyr Ehangu Mynediad i SAUau Lloegr.
- 1.27 mae cynlluniau ffioedd yn rhwystro ystwythder wrth ymateb yn gadarnhaol i alw sy'n newid yn y farchnad Ehangu Mynediad.
- 1.28 mae cyllid myfyrwyr yn gymhleth a dylid gwneud mwy i resymoli prosesau ariannol AU.

#### Polisi

- 1.29 Dylai adrannau Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig at AU.
- 1.30 dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo rhif unigryw'r dysgwr yn fwy effeithiol.
- 1.31 Dylai CCAUC hyrwyddo effeithiau ehangu mynediad i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
- 1.32 Dylai CCAUC geisio cael adroddiadau mwy cyfannol gan raglenni neu bartneriaethau tebyg i annog dulliau mwy cydgysylltiedig o weithredu.
- 1.33 Dylai CCAUC atgyfnerthu brand y rhaglen genedlaethol Ymggyraedd yn Ehangach a gwella cysondeb dulliau gweithredu ledled y partneriaethau.